**Julie James AC / AM**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-LG-0624-18

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

19 Hydref 2018

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Meysydd Trefi a Phentrefi (Datganiadau Perchenogion Tir) (Cymru) (Rhif 2) 2018**

Rwy'n eich hysbysu y caiff y rheol 21 niwrnod ei thorri mewn perthynas â'r Rheoliadau uchod. Gwnaed y Rheoliadau ar ac maent i fod dod i rym ar 22 Hydref 2018. Maent yn disodli ac yn diddymu Rheoliadau Meysydd Trefi a Phentrefi (Datganiadau Perchenogion Tir) (Cymru) 2018.

Gwnaed Rheoliadau Meysydd Trefi a Phentrefi (Datganiadau Perchenogion Tir) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/1021 (Cy. 212)) ar 21 Medi a'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Medi. Roedd y Rheoliadau i fod dod i rym ar 22 Hydref.

Wrth adolygu'r Rheoliadau, gwelodd a chofnododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dramgwydd posib o Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol o ran cynnwys manylion personol mewn cofrestr gyhoeddus pan nad oedd modd cyfiawnhau eu cynnwys, gan godi amheuon drwy hynny ynghylch y pŵer i wneud y Rheoliadau.

Gwnaed y ddwy set o Reoliadau o dan adran 15A Deddf Tiroedd Comin 2006. Mae Adran 15A yn ymwneud â chofrestru meysydd trefi a phentrefi. Mae'n caniatáu i berchennog tir ddod ag unrhyw gyfnod y câi pobl gymryd rhan drwy hawl mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithiol ar ei dir i ben, trwy adneuo datganiad gyda'r awdurdod cofrestru tiroedd comin. Rhaid i'r datganiad ddilyn y ffurf ragnodedig. Mae gwelliannau i'r adran hon gan adran 52 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cael yr effaith gyfreithiol o gymhwyso'r adran mewn perthynas â thir yng Nghymru. Daw Adran 52 i rym ar 22 Hydref 2018 trwy erthygl 2 Gorchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol) 2018 (O.S. 2018/1022 (Cy. 213)). Mae'n hanfodol bod ffurf datganiadau perchenogion y tir yn cael ei rhagnodi yn y rheoliadau o dan adran 15A ar 22 Hydref 2018. Gallai peidio â rhagnodi'r ffurf ar y dyddiad hwnnw wneud adran 15A yn ddi-rym mewn perthynas â Chymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig wedi ystyried y sylwadau a wnaed gan CLAC ac wedi ailystyried cynnwys manylion personol yn y gofrestr gyhoeddus. Mae'r Rheoliadau ar eu newydd wedd yn diddymu'r gofyn i gynnwys cyfeiriadau ebyst a rhifau ffôn perchenogion tir mewn cofrestr gyhoeddus. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn credu bod cynnwys enwau a chyfeiriadau post perchenogion y tir yn amcan dilys digonol i gyfiawnhau unrhyw dramgwydd hawliau posib o dan Erthygl 8.

Mae'n hanfodol bod ffurf datganiadau perchenogion y tir yn cael ei rhagnodi ar y diwrnod y daw adran 15A i rym, er mwyn rhoi'r adran honno ar waith yn llawn.  Am y rheswm hwnnw, ystyrir bod angen torri'r rheol 21 niwrnod er mwyn gallu diddymu'r Rheoliadau cynharaf ar 22 Hydref 2018 ac i'r Rheoliadau sy'n cymryd eu lle allu dod i rym ar y diwrnod hwnnw.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac mae hwn wedi'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau.

Yn gywir,



**Julie James AC / AM**
Arweinydd y Tŷ a’r Prif Chwip
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.